# SPG7 – Cwestiynau ac Atebion

1. **Ble alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 newydd?**
   Ar 27 Ionawr 2021, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y dylid cyflwyno mesurau rheoleiddio i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol yng Nghymru, sef Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Bydd dogfennau canllaw manwl yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, gan ddarparu dull cam wrth gam o weithredu'r rheoliadau. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf i'w gweld ar y tudalennau canlynol o dan Lygredd Fferm: https://llyw.cymru/rheoli-tir

2. **Pryd mae'r gofyniad storio slyri Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn dod i rym?**
   Bydd y mesurau o fewn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn cael eu cyflwyno'n raddol dros y 3 blynedd nesaf, gyda'r mesurau cychwynnol yn berthnasol i ffermydd o 1 Ebrill 2021 a'r gweddill yn cael eu cyflwyno'n raddol o fis Ionawr 2023 a mis Awst 2024. O 1 Awst 2024, bydd angen capasiti i storio gwerth 5 mis o slyri ar gyfer unrhyw slyri a gynhyrchir gan unrhyw dda byw, ac eithrio moch neu ddofednod. Ar gyfer slyri a gynhyrchir gan foch a dofednod, bydd angen capasiti i storio gwerth 6 mis o slyri.

3. **A ydw i'n gallu ymgeisio os ydw i wedi bod yn llwyddiannus yn fy nghais ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau?**
   Ydych, mae'r ddau gynllun ar wahân, ond nid oes modd i chi ymgeisio am gymorth ar gyfer yr un to.

4. **A oes dyraniad newydd o gyllid o £50,000 ar gyfer pob busnes? Rwy'n gwybod y bydd dyraniad newydd ar gyfer cyfnodau ymgeisio 1-3 ond beth am gyfnodau 4-6?**
   Oes, mae dyraniad newydd o £50,000 ar gyfer pob cyfnod ymgeisio, waeth beth rydych wedi'i dderbyn yn flaenorol. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw gyllid grant na chafodd ei ddefnyddio yn ystod cyfnodau ymgeisio blaenorol yn cael ei drosglwyddo i'r cyfnod nesaf.

5. **A yw busnesau bach a chanolig sydd â refeniw dros £1miliwn wedi'i eithrio o'r grant?**
   Yn wahanol i gynlluniau'r Grant Busnes i Ffermydd, mae busnesau sydd â throsiant o dros £1,000,000 yn gymwys i gael cymorth drwy'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

6. **Os ydw i'n gwneud cais am gymorth i adeiladu storfa slyri, a oes rhaid i mi adeiladu storfa newydd gyda chapasiti ar gyfer y 5 mis llawn?**
   Na. Byddai'n bosibl bodloni'r gofynion o ran capasiti storio trwy adeiladu storfa ychwanegol a/neu ehangu storfa bresennol, gan ychwanegu at y capasiti presennol (mae hwn yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn ystod cyfnodau ymgeisio blaenorol ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy).

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

7. **Ai dyma fydd y rownd olaf un o'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, neu a fydd cynllun tebyg yn cael ei gyflwyno unwaith y byddwn ni wedi newid i gyllid Cymru yn hytrach na chyllid yr UE?**
   Dyma'r cylch diwethaf o'r Grant Cynllunio Cynaliadwy sydd wedi'i gynllunio i'w ariannu drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Ar hyn o bryd, ni allwn ddweud a fydd rowndiau pellach, gan ddefnyddio cyllid cwbl ddomestig, yn cael eu cymeradwyo.

8. **Sut alla i gyfrifo fy ngofynion o ran storio silwair?**
   Gellir cyfrifo gofynion storio silwair gan ddefnyddio'r Ddogfen Canllaw i Ffermwyr: Atodiad 2, Rhan 1 - Canllawiau i Ffermwyr - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Bydd y canllawiau ar gael yma: https://llyw.cymru/rheoli-tir

9. **Sut ydw i'n dangos yn fy nghais y byddaf yn bodloni'r gofyniad storio slyri erbyn 1 Awst 2024?**
   Gallwch ddangos hyn naill ai drwy ddefnyddio'r templed cyfrifo yn Atodiad 2, Rhan 1, Canllawiau i Ffermwyr, drwy gyflwyno adroddiad a gwblhawyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar eich daliad, neu gyfrifiadau cadarn eraill sy'n dangos gofynion storio presennol ac yn y dyfodol.

10. **Os nad wyf yn cynhyrchu slyri, sut ydw i'n dangos fy mod yn bodloni'r gofynion storio slyri?**
    Os nad ydych chi'n cynhyrchu slyri, bydd angen i chi nodi sut mae unrhyw dail neu slyri o siediau da byw yn cael ei storio yn unol â'r rheoliadau newydd.

11. **A yw'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn cefnogi adeiladu clampiau silwair?**
    Ydy, mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn cefnogi adeiladu clampiau silwair newydd.

12. **A fyddai'n bosibl i mi ymgeisio am gymorth ar gyfer siediau da byw?**
    Na, nid yw'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn cefnogi siediau da byw. Mae angen i'r adeilad fod yn addas ar gyfer y diben arfaethedig, ac nid yw addasu adeiladau ategol at ddefnydd arall e.e. siediau ar gyfer da byw neu storfeydd yn gymwys. Dylai'r adeilad gael ei ddefnyddio ar gyfer yr un diben ag a nodwyd yn y cais gwreiddiol am bum mlynedd o ddyddiad y taliad terfynol. Fodd bynnag, yn ystod archwiliad, os ystyrir bod y prosiect a ariannwyd gyda chymorth y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy fel sied ar gyfer da byw, mae'n bosibl y bydd arian yn cael ei ddal yn ôl, neu gallai unrhyw arian a dalwyd gael ei adhawlio'n rhannol neu'n llawn. Mae isafswm o 5 mlynedd ar y prosiectau hyn, o ddyddiad yr hawliad, lle mae'n rhaid i'r buddsoddiad a gefnogwyd barhau i fod yn cael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd ar y daliad a dderbyniodd y cymorth.

13. **A yw'n bosibl rhannu cost adeilad, er enghraifft, lle bydd un to newydd yn gorchuddio ardal o iard fudr (cymwys) ac ardal o iard lân neu adeilad sy'n bodoli eisoes (anghymwys)?**
    Ydi, mae'n bosibl gorchuddio ardal anghymwys ar yr un pryd ag ardal gymwys, ond mae'n rhaid i'r anfoneb ddangos y costau sy'n gysylltiedig gyda'r ardal anghymwys **a'r** ardal gymwys yn glir.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**14. Os ydw i eisoes wedi derbyn Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau, a fyddai'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yn disodli'r grant hwnnw pe byddai modd i mi gasglu digon o bwyntiau?**

Os ydych chi wedi derbyn cytundeb ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd neu'r Cynllun Gorchuddio Iardiau, mae'n rhaid i chi gwblhau'r gwaith yr oeddech chi wedi cytuno i'w wneud yn y cytundeb Grant Busnes i Ffermydd a lofnodwyd gennych. Ni ellir trosglwyddo'r gwaith i'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy wedyn.

**15. Os ydw i eisiau adeiladu storfa slyri newydd ac iard wedi'i gorchuddio i storio tail buarth fferm (FYM) a fyddaf yn gallu hawlio am un yn y rownd gyntaf a'r llall mewn unrhyw rownd yn y dyfodol?**

Pan fydd mwy nag un rownd o'r un cynllun wedi'i gynllunio, mae'n bosibl ymgeisio am un eitem neu fwy yn ystod un rownd a mwy o eitemau yn ystod rownd arall, ar yr amod nad ydynt yn cael eu dyblygu ar gyfer yr un gwaith yn yr un lle y gwnaed cais ar ei gyfer yn flaenorol.

**16. A allaf i ymgeisio ar gyfer offer gwasgaru os nad oes gen i ddigon o gapasiti i storio i fodloni rheoliadau yn y dyfodol?**

Na allwch. Fel rhan o'ch cais, bydd angen i chi ddangos sut fydd y buddsoddiad yn cefnogi'r fferm i gydymffurfio gyda'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, neu gynorthwyo'r fferm i gydymffurfio erbyn 1 Awst 2024.

**17. A yw systemau llawr delltog yn gymwys o dan y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy?**

Na, nid yw llawr delltog yn wariant cymwys. Ystyrir fod unrhyw beth o'r llawr i fyny, uwchben ardal storio slyri o dan y llawr, yn sied ar gyfer da byw, ac nid yw'n gymwys ar gyfer cymorth drwy'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Mae storfeydd slyri o dan y llawr yn gymwys ar gyfer cymorth.

**18. A oes angen dyfynbrisiau ffurfiol arnaf yn y cam Datgan Diddordeb?**

Na, ond mae angen amcangyfrif da o'r costau ar gyfer Datgan Diddordeb, ac mae'n bosibl y byddai derbyn un dyfynbris o leiaf o gymorth wrth i chi nodi'r costau. Yr amcan bris a roddir gennych wrth Ddatgan Diddordeb yn y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy fydd uchafswm y swm y gallwch ymgeisio ar ei gyfer os bydd eich Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei ddewis, hyd yn oed os mae'r tri dyfynbris y byddwch chi'n eu derbyn yn uwch na hynny. Os mae'r tri dyfynbris yn llai na'r amcangyfrif a nodir yn y Datganiad o Ddiddordeb, bydd cap yn cael ei osod ar y dyfynbris isaf a gytunir arno.

**19. Os ydw i'n cael fy newis, a oes angen i mi gael tri dyfynbris yn ystod pandemig y Coronafeirws?**

Ni ddylai pandemig y Coronafeirws eich atal rhag cael dyfynbrisiau, ar yr amod eich bod yn barod i ganiatáu i gontractwyr/cyflenwyr ddod i'r safle gan ddilyn canllawiau cadw pellter diogel. Os nad ydych yn fodlon gwneud hyn, dylech ystyried a oes gwerth cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb, oherwydd os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen i chi gasglu'r nifer gofynnol o ddyfynbrisiau, waeth beth fo'r sefyllfa gyda'r pandemig, **oni chyhoeddir** cyngor pellach i'r gwrthwyneb.

**20. A oes angen i mi roi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am unrhyw newidiadau rwy'n bwriadu eu gwneud i'm storfa slyri?**

Oes. Rhaid rhoi 14 diwrnod o rybudd i CNC cyn dechrau ar y gwaith o adeiladu storfa silwair newydd neu welliannau i storfa bresennol (mae hyn yn weithredol o 28 Ebrill 2021 ymlaen). Cynghorir ymgeiswyr i wneud hyn ar ddechrau'r broses.

**21. Beth yw uchafswm y grant sydd ar gael drwy'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy?**

Uchafswm y grant a ddyfernir yw £50,000 gydag isafswm o £12,000. Mae'r grant yn cyfrannu hyd at uchafswm o 40% tuag at fuddsoddiad cyfalaf. Uchafswm cost y prosiect cyfan er mwyn gallu derbyn cyfraniad grant o 40% yw £125,000 a'r isafswm yw £30,000.

**22. Ble alla i weld y meini prawf sgorio?**

Mae'r meini prawf sgorio'n cael eu hesbonio dan y Broses Sgorio a Dethol yn rheolau ac arweiniad Grant Cynhyrchu Cynaliadwy 7 ac mae'r pwyntiau ar gyfer pob eitem yn cael eu nodi yn y ddogfen Atodiad A. Mae'r ddau i'w gweld yma: https://llyw.cymru/grant-cynhyrchu-cynaliadwy

**23. A oes angen caniatâd cynllunio arnom cyn i ni gyflwyno cais llawn?**

Nid oes angen tystiolaeth o gais cynllunio yn ystod y cam Datgan Diddordeb. Fodd bynnag, os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd rhaid darparu tystiolaeth fod cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno neu dystiolaeth o ganiatâd cynllunio ar gyfer y cam ymgeisio llawn.

**24. A all ymgeiswyr sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ystod cyfnodau ymgeisio blaenorol ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ymgeisio yn ystod cyfnod ymgeisio 7?**

Rydym ni wedi newid y rheolau cymhwysedd ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn. Mae ymgeiswyr llwyddiannus **o bob** cyfnod ymgeisio Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, gan gynnwys cyfnodau ymgeisio 1 – 3, yn gymwys i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer cyfnod ymgeisio 7.

**25. A oes rhaid inni ddefnyddio GwerthwchiGymru i gael dyfynbrisiau cystadleuol?**

Y meini prawf ar gyfer caffael yw mai un dyfynbris yn unig sydd ei angen ar gyfer unrhyw offer sy'n costio llai na £5,000. Rhaid cael tri dyfynbris ar gyfer offer sy'n costio dros £5,000. Nid yw'n glir ynglŷn â'r gofyniad i ddefnyddio GwerthwchiGymru felly bydd hyn yn cael ei adolygu.

**26. A oes angen cwblhau'r holl waith cyn derbyn taliad neu a allaf wneud mwy nag un hawliad?**

Os ydych wedi derbyn cynnig cytundeb gyda mwy nag un eitem fuddsoddi i'w hariannu, gallwch gyflwyno cais am eitemau buddsoddi unigol, unwaith y byddant wedi'u prynu, eu gosod a gwaith wedi'i gwblhau'n llawn ar yr eitem unigol honno. Gallwch hefyd gyflwyno cais am daliad am fwy nag un eitem fuddsoddi cyn belled â bod yr holl eitemau ar yr hawliad wedi'u prynu, eu gosod a'r gwaith wedi'i gwblhau'n llawn. Ni fyddwn yn ariannu taliadau rhannol neu daliadau fesul cam ar gyfer eitem fuddsoddi unigol.

**27. Os mae cost y storfa'n llai na £30,000, a ydw i'n dal i fod yn gymwys i gael grant?**

Rydym yn argymell y dylech gael dyfynbris(iau) mor gywir â phosibl cyn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i sicrhau bod modd cefnogi eich prosiect. Mae'n un o reolau'r cynllun mai £12,000 yw isafswm y gefnogaeth y gellir ei gynnig.

**28. A fydd ceisiadau sy'n gofyn am gymorth ar gyfer storfeydd slyri'n cael eu hystyried yn flaenoriaeth o flaen y rhai sy'n ymgeisio am offer arall?**

Blaenoriaeth y cyfnod ymgeisio hwn ar gyfer y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy yw sicrhau bod pob busnes ffermio yn cyrraedd safon rheoleiddio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 a hysbyswyd yn ddiweddar. O ganlyniad, bydd y ceisiadau hynny ar gyfer prynu offer i fodloni'r rheoliadau yn cael eu sgorio'n uwch. Ni fydd busnesau sydd eisoes yn cydymffurfio ac felly sy'n dymuno prynu eitemau eilaidd yn unig o dan anfantais.

Bydd y ceisiadau gan fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac sy'n dymuno prynu eitemau eilaidd yn unig yn cael eu sgorio'n is.

**29. Faint o fanylion sydd angen eu cynnwys yn y cynllun busnes?**

Wrth ddarllen y cynllun busnes, disgwylid y byddai'r tîm gwerthuso yn gallu deall sut mae'r busnes yn gweithredu, deall y gofyniad ar gyfer buddsoddiad, cynaliadwyedd y prosiect ac a fyddai modd ariannu a gweithredu'r buddsoddiad yn llwyddiannus. Ni ddylai'r cynllun ganolbwyntio ar y grant cyfalaf y gofynnir amdano yn unig, ond dylai fod yn gynllun cyfannol sy'n cyfeirio at ddyfodol y busnes. Fel isafswm, mae angen cynnwys rhagolygon ariannol sy'n cynnwys y buddsoddiad a disgrifiad o'r cynllun busnes i gefnogi'r rhagfynegiadau a nodir yn y rhagolygon.

**30. Pa wybodaeth sydd ei hangen fel rhan o gwestiynau'r meini prawf craidd?**

Bydd angen i ymgeiswyr gwblhau datganiad meini prawf craidd a fydd ar gael ar-lein i'r ymgeiswyr sy'n cael eu dewis. Bydd y wybodaeth y gofynnir amdani yn cynnwys gwerth am arian, cydweddu strategol, cyflawni – risg a rheoli risg a themâu trawsbynciol.

**31. Os ydych chi'n gwneud cais ar gyfer storfa silwair, a oes grant ar gael i'w orchuddio?**

Oes, byddai adeiladu to dros ben storfa silwair dan eitem SP58 - Clamp Silwair yn gymwys.